# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

**Aelodau sy’n Bresennol:** **9 Tachwedd 2022**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Cynghorydd R.W Wood** |
| **Y Dirprwy Faer:** | **Cynghorydd C.Williams** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, T.Bowen, W.Carpenter, H.C.Clarke, M.Crowley, A.Dacey, H.Davies, H.Davies, O.S.Davies, R.Davies, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, N.Goldup-John, W.F.Griffiths, S.Harris, M.Harvey, J.Henton, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, C.James, N.Jenkins, J.Jones, R.G.Jones, S.Jones, C.Jordan, S.A.Knoyle, E.V.Latham, C.Lewis, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.Lodwig, R.Mizen, K.Morris, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, P.Rogers, M.Spooner, D.Thomas, S.Thomas, D.Whitelock, C.Williams, L.Williams a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, H.Jones, C.Griffiths, R.George, C.John a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth A Gorllewin Cymru** | Prif Swyddog Tân Roger Thomas a/ac Interim Section 151 Treasurer Sarah Mansbridge |

---

1. **CYHOEDDIADAU MEIRI**

Darllenodd y Maer lythyr o ddiolch, a dderbyniwyd gan y Brenin Siarl III, wedi iddo dderbyn cerdyn o gydymdeimlad, a anfonwyd gan y cyngor, yn dilyn marwolaeth y Frenhines, EBH Elizabeth 11.

Rhoddwyd diolch gan Arweinydd y Cyngor i'r staff yn adrannau Gofal Strydoedd a systemau draenio y cyngor, a oedd wedi bod wrth law i helpu gyda'r llifogydd diweddar, mewn ardaloedd amrywiol ar draws y

Fwrdeistref Sirol, ac ymestynnodd ei gydymdeimlad â'r preswylwyr yr effeithiwyd arnynt.

2. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Harvey | Eitem rhif 6 ar yr agenda - Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar 2022-23 - gan ei fod yn gweithio i Heddlu De Cymru. |

3. **<u>COFNODION Y CYFARFOD/AU O'R CYNGOR BLAENOROL A GYNHALIWYD AR Y 25AIN MAI 2022, 13 GORFFENNAF 2022 A'R 12FED O FEDI 2022.</u>**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol, a gynhaliwyd ar 25 Mai, 13 Gorffennaf a 12 Medi 2022, fel cofnodion cywir, yn amodol ar nodi'r bobl gywir a oedd yn bresennol ar gyfer cyfarfod y cyngor ar 12 Medi.

4. **<u>AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS</u>**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5. **<u>CYFLWYNIAD GAN BRIF SWYDDOG TÂN GWASANAETH TÂN CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU</u>**

Croesawodd y Maer y Prif Swyddog Tân ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a roddodd gyflwyniad i'r cyngor.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r cyflwyniad.

6. **<u>CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID AC YMYRRAETH GYNNAR CNPT 2022 - 2023</u>**

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant, y Cynghorydd S Harries, gyflwyniad a throsolwg i'r cyngor o Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar CNPT 2022-23.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Drafft Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2022-23.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CORFFORAETHOL 2021/2022**

Darparodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S K Hunt, Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2021/2022, er mwyn i'r cyngor ei ystyried.

**PENDERFYNWYD:** 1. Bydd y cyngor yn mabwysiadu'r dogfennau canlynol:

• Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/22 (Adroddiad Cynnydd Llawn)
• Crynodeb o Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/22
• Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2021/22

2. Caiff awdurdod dirprwyedig ei roi i Arweinydd y Cyngor Swyddog i wneud y fath newidiadau ag y mae eu hangen i'r Adroddiad Blynyddol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw'r fath newidiadau'n newid cynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan y Cabinet yn sylweddol.

8. **NEWIDIADAU I GYMESUREDD GWLEIDYDDOL AC AELODAETH PWYLLGOR**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth pwyllgorau, fel y'u nodir ym mharagraff 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

9. **AWDURDOD I RECRIWTIO I SWYDD CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - STRATEGAETH A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**PENDERFYNWYD:** Bydd y cyngor yn rhoi'r awdurdod i'r Prif Weithredwr ddechrau recriwtio swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol.

10. **ADOLYGIAD 2023 O ETHOLAETHAU SENEDDOL - CYNIGION DIWYGIEDIG**

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

11. **PWYLLGOR SAFONAU NPTCBC - PENODI AELODAU ANNIBYNNOL**

**PENDERFYNWYD** penodi'r Athro Duncan Lewis yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgorau Safonau, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd), a chynnal ymarfer recriwtio ar gyfer y swyddi gwag sy'n weddill.

12. **HYSBYSIAD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw Rhybudd o Gynnig.

13. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA HYSBYSIAD, DAN REOL 9.2 O REOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

14. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**